



QAA
Cymru

Aelodaeth QAA ar gyfer Darparwyr Addysg Uwch y DU yng Nghymru

Cytundeb Aelodaeth

Ein hymrwymiad i chi

Mae Aelodaeth QAA yn cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i weithio gyda chi i ddarparu ystod ymatebol ac wedi'i theilwra o wasanaethau sy'n diwallu anghenion penodol addysg uwch yng Nghymru. Darperir ystod ein gwaith o dan y Cytundeb Fframwaith ar gyfer Sicrwydd Ansawdd Allanol (Cytundeb Fframwaith) sydd gennym gyda Phrifysgolion Cymru ac mae'n cyd-fynd â gofynion Fframwaith Asesu Ansawdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Mae aelodaeth yn adlewyrchu natur y gwaith partneriaeth cydweithredol sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru yn gyflawn. Mae'r aelodau'n llunio'r gwaith rydyn ni'n ei wneud - trwy Prifysgolion Cymru, grwpiau sector fel Rhwydwaith Ansawdd Cymru, a thrafodaethau rheolaidd gyda HEFCW a rhanddeiliaid eraill. Bob blwyddyn byddwn yn anelu at gynllunio gweithgareddau i gyflawni'r blaenoriaethau penodol rydych chi, fel aelodau, yn eu nodi fel y rhai pwysicaf i chi.

Fel aelodau o QAA, bydd yr holl staff a myfyrwyr ym mhob aelod-sefydliad yng Nghymru yn parhau i gael mynediad at ein holl adnoddau. Bydd y wybodaeth fewngofnodi bresennol yn cael ei chadw er mwyn sicrhau mynediad parhaus i adnoddau o fis Awst 2020. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn y gall aelodau yng Nghymru sy'n rhan o'r Cytundeb Fframwaith ei gyrchu, mae'n cynnwys yr holl adnoddau a gwmpesir gan y gwasanaethau aelodaeth a gwella craidd sydd ar gael i ddarparwyr yn Lloegr o dan y drefn reoleiddio wahanol yno.

Ein haelodau yng Nghymru

Mae pob un o lofnodwyr y Cytundeb Fframwaith yn aelodau, ynghyd â'r Brifysgol Agored yng Nghymru ac unrhyw ddarparwyr sy'n darparu addysg uwch - naill ai fel cyd-lofnodwyr i'r Cytundeb Fframwaith neu fel aelodau gwirfoddol.

Ffioedd aelodaeth

Mae aelodaeth yng Nghymru yn seiliedig ar yr un model bandio a phrisio â thanysgrifiad QAA. Nid oes unrhyw newid ar gyfer 2020-21. Mae'r flwyddyn aelodaeth yn rhedeg o 1 Awst i 31 Gorffennaf a chyhoeddir anfonebau ddechrau mis Awst - mae hyn yn newid i'r drefn. Gellir cyfyngu mynediad at adnoddau QAA os na thelir anfonebau o fewn 30 diwrnod - nid yw hyn yn newid i'r drefn.

Mae aelodaeth yng Nghymru yn parhau i gynnwys nifer ddynodedig o leoedd i staff a myfyrwyr mewn digwyddiadau a gynllunnir ar gyfer aelodau yng Nghymru. Mae aelodaeth ar gyfer y DU gyfan yn cynnwys lleoedd am ddim yn Uwchgynhadledd Ansawdd Flynyddol QAA ynghyd ag ystod o adnoddau ar gyfer y DU gyfan y gellir eu cyrchu trwy ein safle Adnoddau Aelodaeth ar-lein. Mae gweminarau ychwanegol sy'n ymdrin â materion sy'n berthnasol i'r DU gyfan a chyfleoedd i gydweithio ledled y DU hefyd wedi'u cynnwys.

Mae'r [Telerau ac Amodau](#) llawn mewn perthynas â darparu gwasanaethau aelodaeth i'w gweld ar ein gwefan.

Adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd ac adnoddau aelodaeth

Bydd QAA yn parhau i gyhoeddi'r holl ddeunyddiau rheoleiddio ar wefan QAA yn unol â'r trefniadau rheoleiddio ym mhob gwlad. Mae hyn yn cynnwys y Fframweithiau Cymwysterau a Disgwyliadau'r Cod Ansawdd ac arferion Craidd a Chyffredin. Bydd fersiynau cyfredol o bwyntiau cyfeirio eraill (Datganiadau Nodweddion, Datganiadau Meincnodi Pwnc a Chyngor ac Arweiniad ar y Cod Ansawdd) yn parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan QAA ac ar gael i'r cyhoedd.¹

Gallai fersiynau newydd a diweddariadau o'r pwyntiau cyfeirio a ddatblygir gan QAA ar y cyd â'i gymuned o aelodau fod ar gael trwy fynediad i aelodau yn unig. Bydd unrhyw gyfyngiadau yn cael eu penderfynu gyda'n haelodau.

Yn y dyfodol, dim ond penawdau neu grynodedbau a roddir ar ein gwefannau cyhoeddus ar gyfer ystod eang o gyhoeddiadau eraill QAA gyda'r wybodaeth lawn ar gael i'n haelodau yn unig ac i'w cyrchu trwy ein gwefan Adnoddau Aelodaeth.

Mae aelodaeth yn cynnwys ein partneriaid

Mae cyllidwyr a rhanddeiliaid allweddol yn bartner-aelodau gan gynnwys HEFCW, Prifysgolion Cymru a'r Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd - Gorffennaf 2020.

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2020
Rhifau elusen cofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk

¹Er gwybodaeth: Bydd gwefan Themâu Gwella QAA yr Alban yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd. Mae Cyngor Cyllido'r Alban, Universities Scotland a QAA oll wedi ymrwymo i barhau i sicrhau bod yr adnodd unigryw hwn ar gael yn ddirwysr, gan ei fod yn hyrwyddo ac yn enghreifftio'r dull cydweithredol unigryw sy'n seiliedig ar bartneriaeth ar gyfer gwella dysgu, addysgu a phrofiad y myfyriwr.